

Adroddiad ar Arolygiad o Bractis Deintyddol Cyffredinol (Lle Rhoddwyd Rhybudd)

Practis Deintyddol Crucywel, Bwrdd
Iechyd Addysgu Powys

Dyddiad yr arolygiad: 16 Mai 2022

Dyddiad cyhoeddi: 17 Awst 2022



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein [gwefan](#) neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu drwy

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: agic@llyw.cymru
Gwefan: www.agic.org.uk

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw'r arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer gofal iechyd yng Nghymru

Ein diben

Gwirio bod gwasanaethau gofal iechyd yn cael eu darparu mewn ffordd sy'n mwyafu iechyd a llesiant pobl

Ein gwerthoedd

Mae pobl wrth wraidd yr hyn yr ydym yn ei wneud. Rydym yn:

- Annibynnol - rydym yn ddiuedd, yn penderfynu pa waith rydym yn ei wneud a lle rydym yn ei wneud
- Gwrthrychol - rydym yn rhesymol ac yn deg ac yn gweithredu ar sail tystiolaeth
- Pendant - rydym yn gwneud dyfarniadau clir ac yn cymryd camau i wella safonau gwael ac amlygu'r arferion da rydym yn dod ar eu traws
- Cynhwysol - rydym yn gwerthfawrogi ac yn annog cydraddoldeb ac amrywiaeth drwy ein gwaith
- Cymesur - rydym yn ystwyth ac rydym yn gwneud ein gwaith lle mae o'r pwys mwyaf

Ein nod

Bod yn llais dibynadwy sy'n ysgogi gwelliant mewn gofal iechyd ac sy'n dylanwadu arno

Ein blaenoriaethau

- Byddwn yn canolbwyntio ar ansawdd y gofal iechyd a ddarperir i bobl a chymunedau wrth iddynt gyrchu a defnyddio gwasanaethau a symud rhyngddynt
- Byddwn yn addasu ein dull gweithredu i sicrhau ein bod yn ymatebol i risgiau i ddiogelwch cleifion sy'n dod i'r amlwg
- Byddwn yn cydweithio er mwyn ysgogi'r gwaith o wella systemau a gwasanaethau ym maes gofal iechyd
- Byddwn yn cefnogi ac yn datblygu ein gweithlu i'w galluogi nhw, a'r sefydliad, i gyflawni ein blaenoriaethau



Cynnwys

1. Yr hyn a wnaethom
2. Crynodeb o'r arolygiad
3. Yr hyn a ganfuom
 - Ansawdd profiad y claf
 - Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol
 - Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth
4. Y camau nesaf

Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith

Atodiad C - Cynllun gwella

1. Yr hyn a wnaethom

Ceir manylion llawn ar sut rydym yn arolygu'r GIG ac yn rheoleiddio darparwyr gofal iechyd annibynnol yng Nghymru ar ein [gwefan](#).

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Bractis Deintyddol Crucywel, Bwrdd Iechyd Addysgu Powys ar 16 Mai 2022.

Roedd ein tîm arolygu yn cynnwys dau o arolygwyr AGIC ac adolygydd cymheiriaid deintyddol.

Sylwch fod canfyddiadau'r arolygiad yn ymwneud â'r adeg y cynhaliwyd yr arolygiad.

Mae'r adroddiad (llawn) hwn wedi'i gynllunio ar gyfer y lleoliad, ac mae'n disgrifio'r holl ganfyddiadau sy'n ymwneud â darparu gofal diogel a dibynadwy o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.

Mae fersiwn gryno o'r adroddiad, sydd wedi'i chynllunio ar gyfer aelodau o'r cyhoedd, ar gael ar ein [gwefan](#).

2. Crynodeb o'r arolygiad

Ansawdd profiad y claf

Crynodeb cyffredinol:

Canfuom fod Practis Deintyddol Crucywel yn bractis bach, clós a oedd yn canolbwyntio ar ddarparu gwasanaeth gofalgarg, cyfeillgar a phroffesiynol i'w gleifion.

Roedd y practis wedi'i leoli yng nghanolfan feddygol Crucywel ac roedd yn darparu awyrgylch croesawgar a dymunol i gleifion.

Gwelsom fod newidiadau wedi'u gwneud i'r amgylchedd yn unol â chanllawiau'r llywodraeth i alluogi cleifion i gael eu trin yn ddiogel oherwydd y pandemig COVID-19 diweddar. Gwelsom y staff yn cyfarch cleifion mewn modd cwrtais a chyfeillgar wyneb yn wyneb a thros y ffôn. Gwelsom fod cyfrinachedd ac urddas cleifion yn cael eu cynnal bob amser.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Darparu 'cynnig rhagweithiol' er mwyn annog y cleifion hynny sydd efallai'n dymuno cyfathrebu drwy gyfrwng y Gymraeg i wneud hynny
- Arddangos gwybodaeth i annog cyfathrebu yn Gymraeg a sicrhau bod gwybodaeth ysgrifenedig ar gael yn ddwyieithog
- Cynnig gwybodaeth mewn amrywiaeth o fformatau hygrych
- Ailddechrau casglu adborth cleifion
- Gweithredu bwrdd gwybodaeth 'dywedoch chi, gwnaethom ni' mewn ymateb i adborth cleifion
- Arddangos copi o'r polisi cwynion
- Arddangos tystysgrifau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar gyfer y gweithwyr proffesiynol hynny sy'n gweithio yn y practis.

Dyma beth oedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Gwelsom gleifion yn cael eu trin mewn modd gofalgarg a chyfeillgar mewn ystafelloedd triniaeth a oedd yn cynnal eu hurddas
- Canfuom fod y practis yn hybu cyfrinachedd a gwelsom fod sgysiau sensitif neu gyfrinachol yn cael eu trin yn briodol ac mewn modd preifat
- Gwelsom fod y practis wedi gosod sgrin deledu ar wal y man aros a oedd yn arddangos gwybodaeth berthnasol am y practis

- Gwelsom fod y practis yn olau, yn awyrog ac yn fodern, gyda thîm croesawgar yn y practis deintyddol

Gofal diogel ac effeithiol

Crynodeb cyffredinol:

Gwnaethom nodi bod angen i'r practis wneud gwelliannau i'r trefniadau diogelwch tân sydd ar waith yn y practis. Yn benodol, roedd yr asesiad risg tân wedi'i gynnal sawl blwyddyn yn ôl ac nid oedd diffoddwyr tân wedi cael eu gwasanaethu o fewn y flwyddyn ddiwethaf fel sy'n ofynnol. Yn ogystal, canfuom nad oedd staff y practis wedi cwblhau hyfforddiant diogelwch tân.

O'r 10 cofnod claf a adolygwyd fel rhan o'r arolygiad, canfuom fod pob un ohonynt wedi'u cwblhau i safon dda. Roedd y nodiadau'n ddarllenadwy, yn glir ac o ansawdd da gyda gwybodaeth gynhwysfawr am y claf a'i driniaeth.

Mae Practis Deintyddol Crucywel yn cynnig triniaeth tawelyddu ymwybodol mewnwythiennol i'w cleifion i helpu cleifion sydd â ffobia deintyddol a gorbryder. Gwelsom ei bod yn cael ei darparu mewn modd hynod gymwys a diogel a oedd yn cydymffurfio â chanllawiau arfer gorau.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Rhaid cwblhau asesiadau risg tân, rhaid i staff ymgymryd â hyfforddiant diogelwch tân, a rhaid gwasanaethu diffoddwyr tân ac offer yn rheolaidd
- Dylid cael cadarnhad ysgrifenedig gan y fferyllfa ei bod wedi derbyn meddyginiaethau sydd wedi dod i ben
- Arddangos gwybodaeth am y manteision a'r risgiau sy'n gysylltiedig ag amlygiad i ymbelydredd ìoneiddio i'r cleifion hynny sy'n cael llawdriniaethau pelydr-X
- Arweinydd diogelu'r practis i gwblhau hyfforddiant diogelu i lefel 3 .]

Dyma beth oedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd triniaeth tawelyddu ymwybodol mewnwythiennol yn cael ei chynnal mewn modd diogel ac effeithiol gyda monitro a gwiriadau llawn cyn ac ar ôl tawelydd
- Roedd cofnodion deintyddol wedi'u hysgrifennu'n glir ac yn gyfredol ac yn cynnwys manylion triniaeth cleifion
- Canfuwyd gennym y cafwyd cydsyniad gwybodus yn achos pob un o gofnodion deintyddol y cleifion a adolygwyd gennym

- Roedd gan y practis ystafell ddihalogi â chyfleusterau priodol ac roedd mesurau atal a rheoli heintiau effeithiol ar waith ym mhob rhan o'r practis
- Roedd yr ystafelloedd triniaeth yn lân, wedi'u cyfarparu'n dda ac yn addas i'r diben gyda chyfarpar wedi'i gynnal a'i gadw'n dda.

Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

Crynodeb cyffredinol:

Mae gan Bractis Deintyddol Crucywel dîm bach, ymroddedig o staff y gwelsom eu bod yn cydweithio'n dda i ddarparu safonau uchel o ofal i'w cleifion.

Gwelsom fod y practis wedi'i drefnu'n dda a bod polisiau a gweithdrefnau ar waith a oedd yn bodloni'r safonau a'r rheoliadau ar gyfer practisau deintyddol preifat yng Nghymru. Roedd dogfennau'n ymwneud â gwybodaeth staff yn cael eu cadw'n ddiogel ac yn cynnwys yr holl wybodaeth angenrheidiol i sicrhau bod y staff yn addas i weithio.

Gwelsom dystiolaeth o gyfarfodydd tîm rheolaidd. Cedwid cofnodion o'r rhain ac roeddent ar gael i'r staff eu gweld. Gwelsom fod staff yn cael eu hannog i gyfrannu at agendâu cyfarfodydd er mwyn cynorthwyo cydweithio.

Gwelsom fod arfarniadau'n cael eu cynnal unwaith y flwyddyn a bod staff yn cael eu hannog i ymgymryd â hyfforddiant perthnasol pellach i ddatblygu eu gyrfaedd.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- [Gwella taflen wybodaeth i gleifion y practis yn unol â'r rheoliadau
- Cwblhau offerynnau datblygu'r practis, gan gynnwys y Maturity Matrix Dentistry a'r Offeryn Hunanwerthuso Optimeiddio Sgiliau (SOSET) neu Gynllun Arferion Da Cymdeithas Ddeintyddol Prydain
- Cynyddu gweithgarwch archwilio i gynnwys rhoi'r gorau i smygu, cadw cofnodion a rhagnodi sylweddau gwrth-ficrobaidd ochr yn ochr â pholisi ac amserlen archwilio.]

Dyma beth oedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- [Talodd rheolwr cofrestredig brwdfrydig ac ymroddedig am gofrestrriad y Cyngor Deintyddol Cyffredinol (GDC), indemniad a chyrsgiau pellach i nyrsys deintyddol yn y practis er mwyn datblygu eu sgiliau, eu gwybodaeth a'u harbenigedd ymhellach
- Roedd polisiau a dogfennau'r practis yn gyfredol ac yn foddhaol
- Gwelsom staff yn cydweithio'n dda fel rhan o dîm.]

Rhoddir manylion y pryderon am ddiogelwch cleifion a'r gwelliannau uniongyrchol a'r camau unioni sydd eu hangen yn [Atodiad B](#).

3. Yr hyn a ganfuom

Ansawdd profiad y claf

Adborth cleifion

Cyn ein harolygiad, gwnaethom wahodd y practis i ddsbarthu holiaduron AGIC i gleifion er mwyn cael eu barn ar y gwasanaeth a ddarperir yn y practis. Derbyniwyd cyfanswm o 16 o holiaduron wedi'u cwblhau. Roedd mwyafrif yr holiaduron a gwblhawyd gan gleifion a oedd wedi bod yn glaf yn y practis am fwy na dwy flynedd.

Roedd rhai o'r sylwadau a ddarparwyd gan gleifion ar yr holiaduron yn cynnwys:

"Ni ellid gwella'r gwasanaeth oherwydd ei fod eisoes yn bum seren a thu hwnt. Rhagorol."

"Mae'r staff bob amser yn gyfeillgar ac yn barod i helpu. Wedi bod yn mynychu ers y 25 mlynedd diwethaf."

Gofynnwyd i gleifion yn yr holiaduron sut y gallai'r lleoliad wella'r gwasanaeth y mae'n ei ddarparu. Roedd rhai sylwadau a dderbyniwyd yn cynnwys:

"Mwy o apwyntiadau hwyr."

"Lleihau'r prisiau a godir."

Cadw'n iach

Hybu, diogelu a gwella iechyd

Gwelsom y newidiadau a wnaed i amgylchedd y practis oherwydd COVID-19. Er mwyn amddiffyn rhag y risgiau a berir gan y feirws, gwelsom fod mynediad i'r practis wedi newid. Yn flaenorol, byddai cleifion yn mynd i mewn trwy brif ddrws yr adeilad a oedd yn cael ei rannu â phractis meddygol. Roedd hwn wedi'i newid er mwyn darparu mynedfa bwrpasol i gleifion y practis deintyddol i gefn yr adeilad. Pan oedd yn briodol, gofynnwyd i gleifion wisgo mwgwd a rhoi gel diheintio ar eu dwylo o beiriant a oedd wedi'i leoli ger drws y practis.

Gofynnwyd i gleifion aros yn eu car cyn eu hapwyntiad yn un o'r manau parcio a neilltuwyd i gleifion. Roedd seddau yn y man aros wedi'u lleihau i un gadair er mwyn cydymffurfio â gofynion cadw pellter cymdeithasol. Gwelsom gleifion yn ymateb i gyfres o gwestiynau sgrinio i wirio am symptomau COVID-19. Yn ogystal, gwelsom

fod y practis wedi gosod desg newydd yn y dderbynfa gyda sgrin integredig i amddiffyn y cleifion a'r staff.

Gwelsom fod y man aros yn olau, yn rhydd o annibendod ac yn awyrog. Roedd sgrin deledu wedi'i gosod ar y wal yn darparu gwybodaeth berthnasol am y practis i gleifion.

Gwelsom fod y practis wedi gosod arwydd 'Dim Smygu' ar ddrws ffrynt y practis.

Roedd enw'r practis i'w weld yn glir i gleifion o ymyl y ffordd a hefyd wrth fynedfa'r practis. Roedd oriau agor hefyd wedi'u harddangos ar ddrws ffrynt y practis.

O'r 16 claf a gwblhaodd yr holiadur, dywedodd 15 fod y tîm deintyddol wedi siarad â nhw am sut i gadw eu ceg a'u dannedd yn iach.

]

Gofal ag urddas

Cyfathrebu'n effeithiol

[Dywedodd pob claf a gwblhaodd holiadur AGIC eu bod yn teimlo bod y staff yn y practis yn eu trin ag urddas a pharch. Dywedodd pob un ohonynt hefyd eu bod yn teimlo bod y tîm deintyddol wedi eu helpu i ddeall yr holl opsiynau sydd ar gael ar gyfer triniaeth pan oedd angen cymorth arnynt.

Gwelsom y staff yn darparu gofal i gleifion mewn modd urddasol a pharchus, a siaradwyd â chleifion mewn ffordd gyfeillgar a chymwynasgar.

Gwelsom fod drysau'r ystafelloedd triniaeth yn cael eu cadw ar gau yn ystod triniaethau. Nid oedd y ffenestri yn y deintyddfeydd mewn man sy'n hygyrch i'r cyhoedd a chawsom ein sicrhau bod urddas y cleifion yn cael ei gynnal.

Gwelsom fod sgysiau sensitif neu breifat yn cael eu cynnal mewn ystafell a oedd y tu ôl i ddesg y dderbynfa neu mewn ystafell driniaeth os oedd un yn rhydd.

Canfuom fod gan y practis gyflenwad cyfyngedig iawn o daflenni gwybodaeth i gleifion ac nid oedd unrhyw wybodaeth ar gael i gleifion mewn fformatau eraill (er enghraifft Braille neu fformatau hawdd eu darllen).

Yn ogystal, canfuom nad oedd y practis yn darparu 'cynnig rhagweithiol' o ran y Gymraeg ac nid oedd yr arwyddion oedd i'w gweld yn ddwyieithog. Roedd hyn yn golygu nad oedd cleifion y gallai fod yn well ganddynt gyfathrebu drwy gyfrwng y Gymraeg yn cael eu hannog i wneud hynny.

Gwnaethom nodi bod gan y practis wasanaeth cyfieithu dros y ffôn ar gyfer cleifion sy'n siarad ieithoedd eraill. Darparwyd hyn gan y bwrdd iechyd lleol.]

Gwybodaeth i gleifion

[Nid oedd gan y practis daflenni gwybodaeth ar gael i gleifion a oedd yn hybu iechyd y geg nac yn darparu gwybodaeth am y gwahanol fathau o driniaethau sydd ar gael yn y practis. Dywedwyd wrthym fod taflenni cleifion wedi cael eu tynnu o'r man aros er mwyn amddiffyn rhag y risgiau a berir gan bandemig COVID-19.

Ar ddiwrnod yr arolygiad, gwelsom fod taflenni gwybodaeth ar gael ynghylch rhoi'r gorau i smygu. Roedd gwybodaeth arall ar gael ar y sgrin deledu ar wal y man aros.

Gwelsom fod gwybodaeth am gostau triniaeth breifat yn ogystal â ffioedd y GIG wedi'i harddangos yn y man aros ochr yn ochr â thystysgrif gofrestru AGIC. Gwnaethom nodi nad oedd y practis yn arddangos poster gwybodaeth Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar gyfer y Tîm Deintyddol. Gwnaethom godi hyn gyda'r rheolwr cofrestredig ar ddiwrnod yr arolygiad ac aethpwyd i'r afael â hyn yn brydlon.

Gwelsom nad oedd gwybodaeth bellach y mae'n ofynnol ei harddangos ar gael ychwaith. Roedd hyn yn cynnwys tystysgrifau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar gyfer y gweithwyr deintyddol proffesiynol sy'n gweithio yn y practis yn ogystal â chopi o bolisi cwynion y practis a gwybodaeth am weithdrefn 'Gweithio i Wella' y GIG.

Cawsom y datganiad o ddiben diweddaraf a'r daflen wybodaeth ddiweddaraf i gleifion. Gwelsom fod y datganiad o ddiben yn cynnwys yr holl wybodaeth ofynnol. Fodd bynnag, nid oedd y daflen wybodaeth i gleifion yn cydymffurfio ar y pryd ac felly byddai angen ei diweddarau.]

Gofal amserol

Mynediad amserol

[Gwelsom fod y practis yn ymdrechu i sicrhau bod cleifion yn cael eu trin mewn modd prydlon ac amserol. Cawsom wybod y gellid trefnu apwyntiadau dros y ffôn neu wyneb yn wyneb.

Dywedodd y staff wrthym, pe bai'r deintydd yn rhedeg yn hwyr ar gyfer apwyntiad, y byddai'r derbynnydd yn rhoi gwybod i gleifion.

Dywedodd pob claf a gwblhaodd holiadur AGIC ei bod yn hawdd cael apwyntiad pan oedd angen un arnynt. Dywedodd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr i'r holiadur eu bod yn gwybod sut i gael mynediad at y gwasanaeth deintyddol brys y tu allan i oriau.]

Gofal unigol

Cynllunio gofal i hybu annibyniaeth

[

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom adolygu cofnodion deintyddol ar gyfer 10 claf. Gwelsom fod tystiolaeth o gynllunio triniaeth priodol ym mhob un ohonynt.

Cadarnhawyd hyn yn yr ymatebion i holiadur AGIC. Yn ddieithriad, dywedodd yr holl ymatebwyr eu bod yn teimlo eu bod yn cymryd cymaint o ran ag y dymuna nt yn y penderfyniadau a wneir ynghylch eu gofal. Dywedodd yr holl ymatebwyr fod y tîm deintyddol wedi holi am eu hanes meddygol cyn ymgymryd ag unrhyw driniaeth.]

Hawliau pobl

[

Gwelsom fod gan y practis bolisi cydraddoldeb ac amrywiaeth ar waith i gynnal hawliau dynol y staff a'r cleifion. Roedd y polisi hwn wedi'i adolygu a'i ddiweddarau'n ddiweddar.

Gwelsom fod gan y practis ddwy ystafell driniaeth ar lawr gwaelod adeilad y practis meddygol. I gael mynediad i'r practis roedd angen camu i fyny iddo, neu roedd ramp i hwyluso mynediad. Roedd y practis yn rhannu toiled i'r anabl gyda'r practis meddygol a oedd â chanllawiau cydio a chortyn tynnu ar gyfer argyfyngau. Yn ogystal, gwelsom fod gan y practis system dolen glyw a chadeiriau deintyddol a oedd wedi'u cynllunio i hwyluso mynediad hawdd ar gyfer cleifion y gallai fod angen iddynt drosglwyddo o gadair olwyn.

Dywedwyd wrthym y câi pob claf ei holi'n rheolaidd ynghylch sut y byddai'n well ganddynt gael sylw ac y byddent yn cael eu trin mewn modd teg a chyfiawn, ni waeth beth fo'u nodweddion gwarchoddedig. Cadarnhawyd hyn gan yr ymatebion i'r holiadur. Dywedodd yr holl ymatebwyr eu bod yn teimlo y gallent gael mynediad at y gofal iechyd cywir ar yr adeg gywir. At hynny, nododd yr holl ymatebwyr nad oeddent wedi wynebu camwahaniaethu wrth ddefnyddio'r practis deintyddol.]

Gwranddo a dysgu o adborth

[Dywedodd y practis wrthym eu bod wedi rhoi'r gorau i gasglu adborth oherwydd y risgiau a berir gan bandemig COVID-19. Cynhaliwyd yr arolwg diweddaraf o adborth cleifion ym mis Ionawr 2020. Fodd bynnag, gwnaethom nodi nad oedd y practis yn

arddangos gwybodaeth yn ymwneud â gwelliannau a wnaed oherwydd awgrymiadau cleifion megis arddangosfa 'fe ddywedoch chi, gwnaethom ni'.

Gwelsom fod y sgrin deledu yn y man aros yn arddangos cod QR y gallai cleifion ei sganio i adael adolygiad ar dudalen cyfryngau cymdeithasol y practis.

Gwnaethom nodi bod gan y practis bolisi cwynion a oedd ar gael i gleifion ar gais. Roedd hwn yn cynnwys manylion ynghylch at bwy y dylid cwyno o fewn y practis ac amserlen ar gyfer ymateb ac asiantaethau pellach y gellid cysylltu â nhw pe na bai ymateb y practis yn effeithiol. Fodd bynnag, nid oedd unrhyw fanylion ar gael am asiantaethau a allai helpu i wneud cwyn ac nid oedd y polisi ei hun wedi'i arddangos ym man aros y practis. Nid oedd gwybodaeth am weithdrefn 'Gweithio i Wella' y GIG ar gael ychwaith.

Roedd y practis yn cadw cofnod cwynion penodol. Ar adeg yr arolygiad, nid oedd unrhyw gwynion ar ffeil.

]

Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol

Gofal diogel

Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch

Roedd y practis yn rhannu adeilad â phractis meddygol. Ar gyfer yr arolygiad hwn, dim ond y rhannau o'r adeilad a'r amgylchoedd a oedd yn rhan o'r practis deintyddol y gwnaethom eu hystyried. Roedd y practis deintyddol wedi'i gynnal a'i gadw'n dda, yn dwt ac yn daclus, gydag ystafelloedd triniaeth modern â chyfleusterau priodol. Roedd ystafell ddihalogi bwrpasol wedi'i lleoli rhwng y ddwy ystafell driniaeth. Roedd y practis wedi'i awyru'n dda, gyda goleuadau da ac roedd y lloriau o ddyluniad 'cap a chilfach' addas i sicrhau y gellir eu glanhau yn effeithiol.

Gwelsom fod y man aros hefyd yn olau a chroesawgar ac o faint addas.

Roedd ardal swyddfa fach, a oedd hefyd yn cynnwys uned tomograffeg gyfrifiadurol pelydr côn deintyddol (CBCT)¹ y tu ôl i'r dderbynfa. Dyma'r ardal hefyd ble'r oedd staff yn newid i mewn ac allan o'u gwisgoedd.

Gwelsom fod gan y practis asesiad risg iechyd a diogelwch ac asesiad risg amgylcheddol ar waith. Roedd y rhain yn gyffredinol eu natur ac nid yn benodol i'r practis deintyddol hwn. Fodd bynnag, dywedwyd wrthym fod gan y practis bolisi iechyd a diogelwch ar waith, a adolygwyd yn ddiweddar, yn ogystal â pholisi parhad busnes a strategaeth adfer ar ôl trychineb, dyddiedig Ionawr 2022.

Gwelsom fod y practis wedi arddangos tystysgrif yswiriant atebolrwydd cyflogwr ddilys yn y dderbynfa. Roedd poster yr Awdurdod Gweithredol iechyd a diogelwch yn bresennol yn yr ystafell ddihalogi.

Gwnaethom adolygu'r trefniadau'n ymwneud â tân yn y practis. Gwelsom dystiolaeth o ymarferion tân rheolaidd a chynhaliwyd yr ymarfer tân diweddaraf ochr yn ochr â'r practis meddygol ym mis Ionawr 2022. Gwelsom fod nifer a mathau digonol o ddiffoddwyr tân yn bresennol yn y practis. Yn ogystal, roedd y brif allanfa dân wedi'i marcio'n glir ac roedd hysbysiadau gweithredu tân wedi'u gosod yn strategol ym mhob rhan o'r practis.

¹Mae tomograffeg gyfrifiadurol pelydr côn deintyddol (CBCT) yn fath arbennig o offer pelydr-X a ddefnyddir pan nad yw pelydrau-X deintyddol neu wyneb yn ddigonol.

Fodd bynnag, canfuom fod angen adnewyddu dogfennau yn ymwneud â'r asesiad risg tân a gynhaliwyd yn y practis yn 2018. Ar ddiwrnod yr arolygiad, nid oedd hyn wedi'i gwblhau. Yn ogystal, roedd angen gwasanaethu'r diffoddwyr tân yn y practis yn 2021 ac nid oedd hyn wedi'i wneud. Dangosodd adolygiad o hyfforddiant staff yn ymwneud ag ymwybyddiaeth o ddiogelwch tân nad oedd hyn ar waith ar gyfer unrhyw aelod o staff.]

Atal a rheoli heintiau

[

Canfuom fod gan y practis bolisiau a gweithdrefnau priodol ar waith i sicrhau bod heintiau'n cael eu hatal a'u rheoli yn effeithiol. Gwelsom bolisiau a oedd yn ymdrin â hylendid dwylo yn ogystal â dulliau cywir o waredu gwastraff clinigol ac anghlinigol a chadw tŷ. Roedd gan y practis bolisiau penodol ar waith hefyd i liniaru'r risgiau a berir gan COVID-19.

Roedd y practis wedi penodi nyrs brofiadol a chymwys fel yr arweinydd dihalogi ar gyfer y practis. Gwelsom fod archwiliad Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05 wedi'i gwblhau'n ddiweddar a bod yr holl staff wedi derbyn hyfforddiant cyfredol mewn atal a rheoli heintiau. Dangosodd adolygiad o ffeiliau'r staff fod yr holl staff sy'n gweithio'n glinigol yn y practis wedi darparu tystiolaeth foddhaol o imiwnedd rhag Hepatitis B.

Gwelsom fod y practis yn defnyddio system o offer miniog diogelwch ar gyfer rhoi pigiadau anesthetig lleol. Roedd hyn yn lleihau'r risg i staff o anaf gan nodwydd ac yn dangos cydymffurfedd â chanllawiau arfer gorau.

Drwy gydol ein hymweliad, gwelsom staff yn gwisgo'r cyfarpar diogelu personol cywir.

Gwelsom dystiolaeth bod rhaglen cynnal a chadw dyddiol ar waith ar gyfer dihalogi offer a bod yr awtoclafau a'r glanhawyr uwchsonig yn cael eu profi a'u dilysu yn rheolaidd. Gwelsom fod awtoclaf newydd wedi cael ei brynu'n ddiweddar.

Cawsom dystiolaeth o gontractau sydd ar waith i sicrhau bod gwastraff o'r practis yn cael ei drin a'i waredu'n briodol, ac roedd rhywfaint o'r gwaith hwn yn cael ei rannu â'r practis meddygol. Roedd gwastraff clinigol yn cael ei storio'n ddiogel ac yn briodol y tu allan i'r practis ac yn cael ei gasglu bob mis.

Gwnaethom adolygu'r trefniadau ar gyfer trin sylweddau a oedd yn destun rheoliadau COSHH a chanfuom, er bod taflenni data ar gael ar gyfer y sylweddau hynny, nad oeddent wedi cael eu llofnodi ac nad oedd dyddiadau adolygu wedi'u nodi arnynt.]

Rheoli meddyginiaethau

[Gwelsom fod gan y practis bolisi rheoli meddyginiaethau ar waith. Roedd y polisi hwn yn cynnwys y gweithdrefnau a'r prosesau i sicrhau bod meddyginiaethau'n cael eu trin, eu storio a'u defnyddio'n ddiogel. Yn ogystal, gwelsom fod gan y practis bolisi ar gyfer trin midasolam yn ddiogel, a ddefnyddir i ddarparu triniaethau tawelyddu ymwybodol mewnwythiennol. Roedd y midasolam wedi'i storio'n briodol mewn cwpwrdd dan glo.

Gwnaethom adolygu'r cyffuriau a'r offer brys yn y practis a chanfod eu bod yn cael eu storio'n briodol, eu bod yn gyfredol a'u bod mewn man a oedd yn hygyrch i'r staff. Gwelsom dystiolaeth bod gwiriadau rheolaidd yn cael eu cynnal i sicrhau bod cyffuriau ac offer brys yn bresennol.

Roedd gan y practis ddau swyddog cymorth cyntaf dynodedig a pheccyn cymorth cyntaf a oedd wedi'i stocio'n briodol.

Fodd bynnag, canfuom fod gwrthfotigau'n cael eu storio mewn cwpwrdd heb ei gloi yn un o'r ystafelloedd triniaeth. Gwnaethom godi hyn gyda'r rheolwr cofrestredig a dywedwyd wrthym bod gwrthfotigau'n cael eu storio yn y lleoliad hwn dros dro. Roedd hyn er mwyn ei gwneud yn bosibl gosod desg newydd yn y dderbynfa a fyddai'n cynnwys cwpwrdd dan glo pwrpasol i'w storio. Dywedwyd wrthym bod yr ystafell driniaeth yn cael ei chadw dan glo bob amser pan nad oedd yn cael ei defnyddio er mwyn atal mynediad heb awdurdod. Er mwyn atal camgymeriadau wrth roi meddyginiaethau, byddem yn argymhell mai dim ond yr unigolion hynny sydd wedi'u hyfforddi i roi gwrthfotigau sy'n gwneud hynny.

Gwnaethom holi'r staff a'r rheolwr cofrestredig am y trefniadau ar gyfer cael gwared ar feddyginiaethau sydd wedi dod i ben. Dywedwyd wrthym y byddai midasolam nad oedd wedi cael ei ddefnyddio yn ystod apwyntiad yn cael ei ddadnatureiddio'n effeithiol gan ddefnyddio dull cymeradwy. Byddai meddyginiaethau eraill yn cael eu cymryd i'r fferyllfa leol i'w gwaredu. Ar adeg yr arolygiad, nid oedd y practis yn cadw cofnod o'r meddyginiaethau a waredwyd yn y modd hwn.]

Diogelu plant a diogelu oedolion mewn perygl

[Gwelsom fod yr holl staff clinigol wedi cwblhau hyfforddiant ar ddiogelu plant ac oedolion agored i niwed hyd at lefel 2. Dywedwyd wrthym mai'r rheolwr cofrestredig yw'r arweinydd diogelu dynodedig. Er y rhoddwyd dystiolaeth i ni bod yr arweinydd diogelu wedi cwblhau hyfforddiant hyd at lefel 2, mae'n ofynnol bod y sawl sy'n cyflawni'r rôl hon wedi'i hyfforddi hyd at lefel 3 .

Gwelsom dystiolaeth bod gan y practis bolisi diogelu. Roedd y polisi'n defnyddio'r templed Diogelu Cymru Gyfan ac yn cynnwys manylion cysylltiadau lleol y dylai staff

adrodd gwybodaeth iddynt pe baent yn teimlo y gallai plentyn neu oedolyn agored i niwed fod mewn perygl. Gwelsom fod y polisi'n gyfredol, ar ôl iddo gael ei adolygu'n ddiweddar a'i ddyddio o fewn y flwyddyn ddiwethaf. Dywedwyd wrthym bod rhagor o ganllawiau ar gael i staff ar wefan Cymdeithas Ddeintyddol Prydain.

Pan holwyd y staff, roedd yn ymddangos eu bod yn wybodus am y weithdrefn i'w dilyn pe bai ganddynt bryder a'u bod yn gwybod â phwy i gysylltu a ble i ddod o hyd i gymorth os oedd ei angen arnynt.

Gwelsom fod yr holl staff wedi cwblhau gwiriadau cyn cyflogi boddhaol, gan gynnwys gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd a wnaed ar lefel uwch yn achos y gweithlu sy'n ymdrin â phlant ac oedolion. Fodd bynnag, nid oedd un o'r aelodau o staff wedi cwblhau gwiriad o fewn y pum mlynedd diwethaf ac nid oedd polisi ar waith i nodi pryd i ailadrodd gwiriadau addasrwydd i weithio.]

Dyfeisiau, offer a systemau diagnostig meddygol

[Gwelsom fod yr ystafelloedd triniaeth yn cynnwys offer priodol ar gyfer sicrhau diogelwch y cleifion a'r tîm deintyddol. Gwnaethom nodi bod gan un o'r ystafelloedd triniaeth ficrosgop wedi'i osod ar y nenfwd i gynorthwyo â thriniaethau endodontig. Canfuom fod yr holl offer clinigol yn ddiogel, mewn cyflwr da a bod y staff wedi'u hyfforddi'n ddigonol i ddefnyddio'r offer. Amlygwyd hyn gan restrau gwirio sefydlu ar gyfer dechreuwyr newydd a staff asiantaeth.

Gwnaethom adolygu'r trefniadau sydd ar waith i sicrhau bod offer radiograffeg yn cael eu defnyddio'n ddiogel a chanfuom fod hyn yn cydymffurfio gan mwyaf â'r gofynion a nodir yn y Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) (2017). Y cynghorydd amddiffyn rhag ymbelydredd a'r goruchwyliwr amddiffyn rhag ymbelydredd oedd rheolwr cofrestredig y practis. Gwelsom fod gan y practis weithdrefnau cyflogwyr priodol ar waith ar gyfer defnyddio ymbelydredd Ïoneiddio, yn ogystal â gweithdrefn ar gyfer gwneud ymholiadau beichiogrwydd a rhaglen asesu ansawdd ar gyfer radiograffau. Cawsom sicrwydd o weld bod y practis wedi'i gofrestru â'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch i wneud gwaith yn ymwneud ag ymbelydredd Ïoneiddio. Roedd asesiadau risg wedi'u cynnal er mwyn sicrhau bod staff, cleifion ac ymwelwyr yn ddiogel rhag y risgiau a berir gan ymbelydredd Ïoneiddio. Cawsom set ddilys o reolau lleol a oedd yn cynnwys y wybodaeth angenrheidiol ar gyfer y peiriannau pelydr-X a ddefnyddir yn y practis.

Gwnaethom nodi bod bron pob aelod o staff yn y practis wedi cwblhau hyfforddiant ar Reoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol) 2017 (IR(ME)R (2017)). Fodd bynnag, nid oedd un o'r aelodau o staff wedi gwneud hynny.

Gwelsom nad oedd y practis yn arddangos unrhyw wybodaeth i gleifion i'w hysbysu o'r manteision a'r risgiau sy'n gysylltiedig â dod i gysylltiad ag ymbelydredd ïoneiddio.

Gwnaethom asesu'r offer a ddefnyddir ar gyfer darparu triniaethau tawelyddu ymwybodol mewnwythiennol yn y practis deintyddol. Canfuom fod gan y practis y cyfarpar angenrheidiol i ddarparu hyn yn ddiogel. Roedd hyn yn cynnwys peiriant ocsifesurydd pwls wedi'i bweru o'r prif gyflenwad gyda larwm clywadwy. Gwelsom fod ocsifesurydd pwls wedi'i bweru gan fatri ar gael hefyd rhag ofn y byddai'r peiriant arall yn methu. Yn ogystal, gwelsom fod gan y practis beiriant monitro pwysedd gwaed. Er mai dim ond un maint cyff oedd ar gael, dywedodd y rheolwr cofrestredig wrthym y gellid benthyca meintiau cyffiau mwy neu lai o faint o'r practis meddygol cyfagos pe bai angen. Roedd yr holl staff sy'n cynorthwyo â thawelyddu wedi'u hyfforddi ar sut i ddefnyddio'r offer a chanfuom ei fod mewn cyflwr da.]

Gofal effeithiol

Gofal diogel ac sy'n effeithiol yn glinigol

[Roeddem yn fodlon bod gan y practis drefniadau ar waith ar gyfer derbyn, asesu, gwneud diagnosis a thrin cleifion. Amlinellwyd hyn yn eu datganiad o ddiben a oedd wedi cael ei adolygu'n ddiweddar ac a oedd yn cydymffurfio â Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017.

Gwelsom dystiolaeth y byddai staff yn cael ac yn dilyn arweiniad a chynghor proffesiynol yn ôl yr angen ac y byddent yn eu defnyddio i ddiweddarau polisiau ymarfer. Amlygwyd hyn gan bresenoldeb staff mewn digwyddiadau hyfforddi rheolaidd a gynhelir gan grwpiau tawelyddu fel y Gymdeithas Hyrwyddo Anaesthesia ym maes Deintyddiaeth (SAAD). Gwelsom fod y practis yn dilyn canllawiau arfer gorau ar gyfer darparu triniaethau tawelyddu ymwybodol mewnwythiennol fel yr argymhellir gan SAAD. Roedd hyn yn cynnwys mwy o fonitro cyn, yn ystod ac ar ôl triniaeth o dan dawelydd ymwybodol, a darparu llenyddiaeth briodol ar gyfer y claf a'r hebryngwr. Roedd cleifion yn cael eu hadfer y'n unol â chanllawiau arfer gorau. Gwelsom hefyd bod cleifion yn cael eu sgrinio a'u hasesu yn drylwyr cyn triniaeth dan dawelydd ymwybodol a gwelsom dystiolaeth o ddull hynod gymwys o gadw cofnodion.

Yn ogystal, gwelsom fod y practis yn cadw at ganllawiau COVID-19 a gyhoeddwyd gan Brif Swyddog Deintyddol Cymru fel y dangosir gan bolisiau, gweithdrefnau ac arferion gwaith sy'n cydymffurfio.

Gwnaethom nodi hefyd fod y practis yn defnyddio rhestrau gwirio'r Safonau Diogelwch Lleol ar gyfer Gweithdrefnau Ymyrrol i atal tynnu dannedd ar y safle anghywir.]

Gwella ansawdd, ymchwil ac arloesi

[Ar y cyfan, er gwaethaf y ffaith bod y practis wedi cynnal archwiliad o weithdrefnau atal a rheoli heintiau a gweithdrefnau dihalogi yn ddiweddar, canfuom nad oedd y practis yn cynnal digon o waith archwilio. Canfuom fod yr archwiliad diweddaraf ar ragnodi sylweddau gwrth-ficrobaidd wedi'i gynnal yn 2018. Ni ddarparwyd gwybodaeth am unrhyw waith archwilio arall i ni.

Gwnaethom holi'r rheolwr cofrestredig am yr offerynnau a ddefnyddir i sicrhau bod y practis deintyddol yn gwella'n barhaus a dywedwyd wrthym na ddefnyddiwyd yr offeryn Maturity Matrix Dentistry a ddarparwyd gan y Ddeoniaeth, na'r Offeryn Hunanwerthuso Optimeiddio Sgiliau (SOSET).]

Llywodraethu gwybodaeth a thechnoleg cyfathrebu

[Gwelsom fod gan y practis bolisi cyfrinachedd staff ar waith a oedd yn cydymffurfio â'r Rheoliadau Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR).

Roedd cofnodion deintyddol cleifion yn cael eu storio'n electronig ac yn ddiogel. Roedd modd cael mynediad at gofnodion deintyddol drwy system wedi'i diogelu â chyfrinair ac roedd y dull hwn yn dilyn polisi rheoli cofnodion priodol.

Gwelsom fod ffolderi personol y staff yn cael eu cadw'n ddiogel mewn cwpwrdd ffeilio metel dan glo.]

Cadw cofnodion

[Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom adolygu 10 set o gofnodion deintyddol cleifion. Daethom i'r casgliad bod safon cadw cofnodion yr holl glinigwyr yn y practis yn uchel. Roedd y nodiadau'n glir ac yn cynnwys digon o wybodaeth.

Gwelsom fod hanes cymdeithasol cleifion, gan gynnwys cymeriant alcohol a'r defnydd o dybaco, yn cael ei gofnodi er mwyn nodi'r bobl hynny a allai fod mewn mwy o berygl o gael canser y geg. Diweddarwyd hanes meddygol cleifion bob tro y drparwyd triniaeth.

Gwelsom fod gan y practis bolisi gydsyniad a'u bod yn glynu wrtho.]

Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

Llywodraethu, arweinyddiaeth ac atebolrwydd

Y prif ddeintydd a pherchennog y practis oedd y rheolwr cofrestredig hefyd, ac ef oedd yn bennaf gyfrifol am reoli'r practis.

Ar adeg ein hymweliad, roedd gan y practis ddau ddeintydd yn darparu gwasanaethau yn y practis a dau hylenydd deintyddol a oedd yn gweithio'n rhan-amser. Roedd tair nyrs ddeintyddol gymwysedig. Roedd nyrs ddeintyddol dan hyfforddiant hefyd wedi'i phenodi'n ddiweddar.

Roedd pob aelod o staff cymwys wedi'i gofrestru â'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ac yn darparu gofal a oedd o fewn cwmplas eu hymarfer ac yn unol ag amodau'r cofrestriad fel y'i nodir gan AGIC.

Gwelsom y tîm yn cydweithio'n dda, gyda chyfathrebu effeithiol a pharch tuag at ei gilydd. Roedd yr arweinyddiaeth, a ddarparwyd gan y rheolwr cofrestredig, yn glir ac roedd yn ymddangos bod y practis yn effeithlon ac yn cael ei redeg yn dda gyda ffocws ar ddarparu gofal rhagorol i gleifion.

Gwelsom fod gan y practis ystod eang o bolisiau a gweithdrefnau a oedd yn berthnasol i'r practis. Roedd y rhain yn hygyrch i'r holl staff.

Fel y rheolwr cofrestredig, roedd gan y prif ddeintydd a pherchennog y practis gyfrifoldeb cyffredinol dros adrodd digwyddiadau i AGIC. Dangosodd ei fod yn gwybod am y gofynion hyn a chawsom sicrwydd y byddai digwyddiadau'n cael eu hadrodd yn brydlon ac yn amserol.

Gwelsom dystiolaeth bod cyfarfodydd tîm rheolaidd yn cael eu cynnal a chawsom enghreifftiau o gofnodion y cyfarfodydd hyn. Roedd y cofnodion yn dangos bod materion a chymau gweithredu a godwyd yn briodol ac yn rhagweithiol. Roedd cofnodion cyfarfodydd yn cael eu cadw mewn ffolder a oedd yn hygyrch i'r holl staff.

Y gweithlu

Dywedwyd wrthym am y broses a ddilynir gan y rheolwr cofrestredig ar gyfer recriwtio staff newydd a gwelsom dystiolaeth o bolisiau a gweithdrefnau sydd ar waith i gefnogi aelodau newydd o staff.

Gwelsom daflen waith sefydlu gynhwysfawr a oedd yn ei gwneud yn bosibl i'r practis asesu cymhwysedd staff newydd ac a oedd yn cefnogi eu hyfforddiant, eu dysgu a'u datblygiad.

Dywedwyd wrthym y byddai'r rheolwr cofrestredig yn talu am gofrestriadau â'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol, indemnïad, a chostau hyfforddi ar gyfer staff. Roedd hyn yn dangos bod rheolwr cofrestredig ymroddedig a oedd yn awyddus i gefnogi datblygiad proffesiynol parhaus ei staff.

Dywedodd y rheolwr cofrestredig wrthym mai prin y defnyddir staff asiantaeth yn y practis. Pe bai angen, byddai'r gwiriadau perthnasol yn cael eu cynnal gan yr asiantaeth ddeintyddol a byddai cadarnhad yn cael ei roi i'r rheolwr cofrestredig.

Gwelsom dystiolaeth o ffeiliau staff a oedd yn cynnwys manylion statws imiwneiddio rhag hepatitis B, gwiriadau cyn cyflogi (gan gynnwys gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd) a chopïau o dystysgrifau cymwysterau.

Roedd gan y practis bolisi chwythu'r chwiban ar waith. Dywedwyd wrthym fod y staff yn gallu mynd at y rheolwr cofrestredig yn gyfrinachol pe bai ganddynt unrhyw bryderon.

Dywedodd y rheolwr cofrestredig wrthym fod arfarniadau'n cael eu cynnal yn flynyddol a gwelsom dystiolaeth o arfarniadau diweddar yn ffeiliau'r staff.

Gwelsom dystiolaeth o dystysgrifau hyfforddi gorfodol a oedd yn cael eu cadw ar gyfer staff a chanfuom fod cydymffurfedd yn dda ar y cyfan. Roedd pob aelod o staff wedi cael hyfforddiant cynnal bywyd sylfaenol (BLS) yn ddiweddar. Byddai'r staff hynny a fyddai'n cynorthwyo â thriniaethau tawelyddu ymwybodol mewnwythiennol yn ymgymryd â hyfforddiant cynnal bywyd sylfaenol uwch fel rhan o'r hyfforddiant diweddar ar dawelyddu gan SAAD yn flynyddol. Byddai hyn yn cael ei ariannu gan y rheolwr cofrestredig.

Gwnaethom ofyn i'r rheolwr cofrestredig am fanylion yr hyfforddiant yr oedd wedi'i wneud er mwyn sicrhau ei fod yn gallu rheoli'r practis deintyddol yn effeithiol. Er nad oedd wedi ennill unrhyw gymhwyster ffurfiol, canfuom fod y rheolwr cofrestredig yn rhagweithiol wrth chwilio am ddulliau hyfforddi anffurfiol i sicrhau addasrwydd i weithio. Roedd y rhain yn cynnwys cwrs wedi'i anelu at sefydlu practis deintyddol a wnaed gyda Chymdeithas Ddeintyddol Prydain wrth gaffael y practis, darllen y cyfnodolyn British Dental yn rheolaidd ac ymgysylltu â phractis Cymdeithas Ddeintyddol Prydain a oedd wedi'i anelu at berchnogion practisau. Darparwyd cymorth adnoddau dynol gan arbenigwr o Bractis Deintyddol Prydain.

]

Y camau nesaf

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae gofyn i'r gwasanaeth weithredu yn eu cylch, mae'r rhain yn cael eu manylu yn y ffyrdd canlynol o fewn atodiadau'r adroddiad hwn (lle bônt yn berthnasol):

- Atodiad A: Mae hwn yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon ynghylch diogelwch cleifion a gafodd eu 'uwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Mae hwn yn cynnwys unrhyw bryderon dybryd ynghylch diogelwch cleifion lle rydym am i'r gwasanaeth lunio cynllun gwella ar unwaith sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Mae hwn yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym am i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Datgan yn eglur sut y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn derbyn sylw
- Sicrhau bod y camau gweithredu a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn gyraeddadwy, amserol, mesuradwy, penodol, uchelgeisiol a synhwyrol.
- Cynnwys digon o fanylion i roi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn derbyn sylw digonol
- Sicrhau bod tystiolaeth ofynnol yn erbyn camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r arolygiad

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw canfyddiadau'n systemig ar draws mannau eraill o fewn y sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal heb eu cymryd a/neu ar y gweill, i gadarnhau pan fydd y rhain wedi cael sylw

Pan gytunir ar y cynllun gwella, caiff ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith

Gwasanaeth: Practis Deintyddol Crucywel, Bwrdd Iechyd Addysgu Powys

Dyddiadau'r arolygiad: 16 Mai 2022

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon dybryd ynghylch diffyg cydymffurfio mewn perthynas â diogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella ar unwaith sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu brys y mae'n eu cymryd.

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon / Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ni nodwyd unrhyw bryderon a oedd angen sicrwydd dybryd yn ystod yr arolygiad hwn.				

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd o'r gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth:

Enw (llythrennau bras):

Swydd:

Dyddiad:

Atodiad C - Cynllun gwella

Gwasanaeth: Practis Deintyddol Crucywel, Bwrdd Iechyd Addysgu Powys

Dyddiadau'r arolygiad: 16 Mai 2022

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodir yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella yn dweud wrthym am y camau gweithredu y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon / Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
<p>Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau'r canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none">Bod 'cynnig rhagweithiol' o ran y Gymraeg yn cael ei ddarparu i gleifionBod gwybodaeth i gleifion ar gael yn ddwyieithog yn Gymraeg ac yn SaesnegBod gwybodaeth cleifion ar gael mewn fformatau amgen ar gyfer y bobl hynny sydd ag anawsterau hygyrchedd (er enghraifft fformat hawdd ei ddarllen neu Braille).	<p>4.1 Gofal ag urddas Rheoliad 13.1, Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017</p>	<p>Mae'r broses o gyfieithu gwybodaeth i gleifion i'r Gymraeg yn mynd rhagddi. Rydym wedi cysylltu â siaradwyr Cymraeg lleol ac wedi cyflwyno dogfennau i Helo Blod yn Busnes Cymru am ragor o gymorth a chyngor.</p> <p>Wedi cysylltu â Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol Pobl Dall a Sight Life am help a chymorth i gynorthwyo'r cleifion hynny sydd angen cymorth.</p>	<p>James Jenkins</p> <p>James Jenkins</p>	<p>2/12</p> <p>Yn aros am ymateb gan y ddau sefydliad hyn ar hyn o bryd.</p>

<p>Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau'r canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Bod taflenni gwybodaeth ar gael i gleifion fynd â nhw gyda nhw • Bod copi o'r polisi cwynion a gwybodaeth am y weithdrefn Gweithio i Wella ar gyfer cleifion sy'n cael eu trin o dan y GIG yn cael eu harddangos • Bod tystysgrifau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol yn cael eu harddangos ar gyfer staff cofrestredig sy'n gweithio yn y practis • Bod y practis yn diweddarau'r daflen wybodaeth i gleifion er mwyn sicrhau ei bod yn bodloni'r gofynion a nodir yn y rheoliadau • Bod y datganiad o ddiben ar gael i gleifion yn y practis a'i fod yn cael ei roi ar wefan y practis. 	<p>4.2 Gwybodaeth i Gleifion Rheoliad 13(9)(a), Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017 Rheoliad 21, Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017 Rheoliad 17(2), Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017 Rheoliad 5, Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017 Rheoliad 6, Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017</p>	<p>Mae gennym ffeil ddynodedig ar gael i bob claf sy'n cynnwys: Polisi Cwynion. Gwybodaeth am gleifion. Gweithdrefn Gweithio i Wella. Mae taflen wybodaeth y practis yn cael ei diweddarau ac mae'n bodloni'r gofynion a nodir yn y rheoliadau. Mae'r datganiad o ddiben ar gael i gleifion ac mae ar y wefan. Mae'r datganiad o ddiben wedi'i ddiweddarau ac mae bellach yn cynnwys ein polisi cwynion ynghyd â sefydliadau y dylid cysylltu â nhw os yw claf yn dymuno gwneud cwyn. Defnyddir y teitl cofrestredig. Polisi ynghlwm.</p>	<p>James Jenkins James Jenkins James Jenkins James Jenkins</p>	<p>Ar gael nawr Ar gael nawr Ar gael nawr Ar gael erbyn 21/7/2022</p>
---	--	---	---	--

<p>Rhaid i'r rheolwr cofrestredig wneud y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Gweithredu arddangosfa 'fe ddywedoch chi, fe wnaethom ni' mewn man sy'n hygyrch i gleifion i annog awgrymiadau gan gleifion er mwyn gwella'r practis ymhellach • Ailgychwyn casglu ac asesu adborth cleifion er mwyn chwilio am themâu allweddol, tueddiadau, meysydd i'w gwella ac achosion o arferion da • Adolygu'r polisi cwynion i sicrhau ei fod yn cynnwys manylion asiantaethau a all helpu claf i gwyno os yw'n dymuno. 	<p>6.3 Gwrando a dysgu o adborth Rheoliad 16, Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017</p> <p>Rheoliad 21, Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017</p>	<p>Ar gael ar y teledu yn y dderbynfa.</p> <p>Rydym wedi dechrau casglu adborth cleifion. Anfonir dolenni at gleifion yn dilyn triniaeth yn eu gwahodd i adael sylwadau. Bydd cleifion hefyd yn cael y cyfle i gwblhau taflenni adborth papur.</p> <p>Mae manylion yr asiantaeth wedi'u cynnwys yn ein polisi cwynion.</p> <p>Mae manylion cyswllt y Cyngor Iechyd Cymuned wedi'u hychwanegu at ein polisi cwynion.</p> <p>Mae'r polisi ynghlwm.</p>	<p>James Jenkins</p> <p>James Jenkins</p> <p>James Jenkins</p>	<p>Ar gael nawr</p> <p>Yn weithredol ar hyn o bryd</p>
--	---	--	--	--

<p>Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau'r canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Ei fod yn adolygu'r asesiad risg iechyd a diogelwch a'r asesiad risg amgylcheddol i sicrhau eu bod yn gwbl berthnasol i'r practis deintyddol • Bod asesiad risg tân llawn yn cael ei gynnal ar y practis a'i fod yn cael ei ddiweddarau'n flynyddol (neu yn unol â chynghor proffesiynol) • Bod diffoddwyr tân a mesurau amddiffyn yn cael eu gwasanaethu'n flynyddol • Bod yr holl staff a'r bobl hynny sy'n gweithio at ddibenion y practis deintyddol yn ymgymryd â hyfforddiant ymwybyddiaeth a diogelwch tân blynyddol. 	<p>2.1 Rheoli risg a hyrwyddo iechyd a diogelwch Rheoliad 22(2), Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017 Rheoliad 22(4)(a,c,e,f) Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017</p>	<p>Defnyddiwyd rhestr wirio asesu risg iechyd a diogelwch Cymdeithas Ddeintyddol Prydain.</p> <p>Asesiad risg wedi'i drefnu.</p> <p>Mae diffoddwyr tân o fewn eu dyddiad - oedi o 3 mis oherwydd COVID-19.</p> <p>Byddwn yn ymgymryd â hyfforddiant ymwybyddiaeth a diogelwch tân blynyddol ochr yn ochr â'r ganolfan iechyd.</p>	<p>James Jenkins</p> <p>James Jenkins</p> <p>James Jenkins</p>	<p>1/12 - yn aros i'r gwasanaeth tân ei gwblhau</p> <p>Mis Mai 2022</p> <p>2023 - Dyddiad heb ei gadarnhau eto</p>
<p>Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod taflenni data COSHH yn cael eu hadolygu a'u llofnodi gan yr holl staff sy'n gweithio i'r practis</p>	<p>2.4 Atal a rheoli heintiau a dihalogi Rheoliad 8(e,k), Rheoliadau</p>	<p>Mae'r holl staff bellach yn edrych ar daflenni data COSHH ac yn eu llofnodi ar ôl eu cwblhau. Mae'r llyfr cofnodion i'w weld yn y ffolder COSHH ac</p>	<p>James Jenkins</p>	<p>Yn weithredol ar hyn o bryd.</p>

deintyddol neu ar ei ran yn rheolaidd.	Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017	mae'n dangos llofnodion staff a dyddiadau cwblhau.		
Rhaid i'r rheolwr cofrestredig wneud y canlynol: <ul style="list-style-type: none"> Sicrhau mai dim ond yr unigolion hynny sydd wedi'u hyfforddi i wneud hynny sy'n rhoi gwrthfotigau Cael derbynneb o'r fferyllfa ar gyfer y meddyginiaethau a dderbynnir i'w gwaredu o'r practis deintyddol. 	2.6 Rheoli Meddyginiaethau Rheoliad 13(4)(a,c) Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017	<p>Mae'r deintydd yn gwirio'r holl wrthfotigau a roddir.</p> <p>Wrthi'n archwilio'r syniad o gael blwch glas dynodedig ar gyfer cael gwared ar unrhyw gyffuriau na ddefnyddiwyd.</p>	James Jenkins	Yn weithredol ar hyn o bryd
			James Jenkins	1/12
Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau'r canlynol: <ul style="list-style-type: none"> Bod yr arweinydd diogelu dynodedig yn cwblhau hyfforddiant diogelu hyd at lefel 3 Bod gwiriadau Gwasanaeth Diogelu a Gwahardd y staff yn cael eu hadolygu'n rheolaidd Bod polisi ar waith sy'n amlinellu'r prosesau ar gyfer sicrhau bod gwiriadau 	2.7 Diogelu plant ac oedolion mewn perygl Rheoliad 14(b,e) Rholiadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017	<p>Bydd y rheolwr cofrestredig yn archebu lle ar gwrs Lefel 3.</p> <p>Bydd gwiriadau'r Gwasanaeth Diogelu a Gwahardd yn cael eu hadolygu'n fwy rheolaidd.</p>	James Jenkins	2/12
			James Jenkins	3/12

<p>addaswydd i weithio yn cael eu hailadrodd ar sail briodol.</p>				
<p>Rhaid i'r rheolwr cofrestredig wneud y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> Sicrhau bod yr holl staff clinigol yn ymgymryd â'r hyfforddiant ar Reoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) (2017) angenrheidiol fel rhan o'u datblygiad proffesiynol parhaus a'u gofynion ar gyfer cofrestru gyda'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol Sicrhau bod gwybodaeth am y manteision a'r risgiau o ddod i gysylltiad agymbelydredd Ïoneiddio yn weladwy i gleifion. 	<p>2.9 Dyfeisiau, offer a systemau diagnostig meddygol Rheoli 13(2)(b) Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017 Rheoliad 13(9), Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017</p>	<p>Bydd hylenydd yn ceisio cwblhau cwrs radioleg.</p> <p>Byddwn yn archwilio gwybodaeth addas i gleifion ynghylch y manteision a'r risgiau o ddod i gysylltiad ag ymbelydredd.</p>	<p>James Jenkins</p> <p>James Jenkins</p>	<p>3/12</p> <p>2/12</p>
<p>Rhaid i'r rheolwr cofrestredig wneud y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> Datblygu polisi ac amserlen archwilio i gynnwys archwiliadau blynyddol o fesurau atal a rheoli heintiau, cadw cofnodion, 	<p>3.3 Gwella ansawdd, ymchwil ac arloesi Rheoliad 8 (1)(n) Rheoliadau Deintyddiaeth</p>	<p>Mae polisi ac amserlen archwilio bellach ar gael.</p>	<p>James Jenkins</p>	<p>Ar gael nawr - bydd polisiau'n cael eu diweddarau'n flynyddol neu'n dod i ben</p>

<p>rhoi'r gorau i ysmygu a rhagnodi sylweddau gwrth-ficrobaidd</p> <ul style="list-style-type: none"> Cwblhau offerynnau fel y Maturity Matrix Dentistry a/neu'r Offeryn Hunanwerthuso Optimeiddio Sgiliau (SOSET). 	<p>Breifafat (Cymru) 2017 Rheoliad 16(a), Rheoliadau Deintyddiaeth Breifafat (Cymru) 2017</p>			
--	---	--	--	--

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd o'r gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth: W.J.Jenkins

Enw (llythrennau bras): James Jenkins

Swydd: Perchennog y practis / y perchennog / y prif ddeintydd

Dyddiad: 12/7/2023